**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD LLUN, 21 MEDI 2020 DYDD LLUN, 21 MEDI 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y:-<br><br>Rheolwr Gyfarwyddwr; a'r<br>Prif Swyddog Masnachol. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 4 | **EITEM(AU) EITHREDIG** | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION YR AMGYLCHEDD** | |
| No. 5 | **CYFLEUSTER AILGYLCHU GWASTRAFF PREN RHANBARTHOL**<br><br>Gan roi ystyriaeth i’r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na’r budd cyhoeddus mewn datgelu’r wybodaeth ac y dylai’r adroddiad gal ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio’r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar ddatblygu achos busnes amlinellol ar gyfer cyfleuster rhanbarthol ailgylchu pren sy’n eiddo ac a weithredir gan y sector cyhoeddus a fyddai’n cael ei arwain a’i leoli ym Mlaenau Gwent. Dynododd yr achos busnes gyfle hyfyw i’r sector cyhoeddus sefydlu a gweithredu ei gyfleuster ailgylchu pren gwastraff ei hun yn Ne Ddwyrain Cymru a fyddai’n sicrhau arbedion cost sylweddol a buddion economaidd ac amgylcheddol ar gyfer y sector cyhoeddus.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cafodd yr adroddiad ei groesawu gan y Pwyllgor Craffu a bod yr opsiwn a ffafrir wedi cael cymeradwyaeth unfrydol ar gyfer argymhelliad.<br><br>Ychwanegodd yr Aelod Gweithredol mai hwn oedd cam cyntaf yr achos busnes ac y gwneir gwaith pellach wrth i’r prosiect symud ymlaen. Croesawodd yr Aelod Gweithredol y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a fyddai’n fanteisiol i dargedau ailgylchu a’r economi lleol.<br><br>Cytunodd yr Arweinydd gyda’r sylwadau a wnaed a theimlai fod y cais a wnaed i Blaenau Gwent yn lleoliad cyfleuster rhanbarthol yn dangos y cynnydd a fu yn hyder Llywodraeth Cymru yn yr Awdurdod yng nghyswllt gwastraff ac ailgylchu dros y 3½ mlynedd ddiwethaf. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 1 fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad. | |